Crwydro o amgylch gwarchodfa natur Ynys-hir

Sylwer nad oes mynediad i bobl ag anableddau i'r rhan fwyaf o'r warchodfa

>>> Y LLWYBRAU

Llwybr y goedlan
Mae'r llwybr hwn sy'n filltir o hyd yn arw mewn mannau felly byddwch yn ofalus. Yn y gwanwyn fe welwch carpet o glychau'r gog drwy'r goedwig.

Y llwybr pren
Yn hanner milltir o hyd, bydd y gwyriad byr hwn o lwybr y goedlan yn eich tywys i'r goedlan gorsiog gyda'i phlanhigion unigryw a phryfed lu.

Llwybr y gwlyptir
Yn dair milltir o hyd, dyma'r llwybr hiraf ac mae'n eich tywys i'r morfa heli lle cewch olygfa dda o'r aber. Chwiliwch am wyddau talcen-wyn yr Ynys Las yn y gaeaf a dechrau'r gwanwyn. Mae llwybr y rheilffordd ar gau rhwng dechrau Tachwedd a diwedd Mawrth.

Llwybr y morfa heli
Yn ddim ond milltir a hanner o hyd, mae'r llwybr poblogaidd a hawdd hwn yn eich tywys heibio tair cuddfan ar eich ffordd i lannau'r afon Dyfi. Mae cuddfan y Domen Las ar gau o ddiwedd Chwefror hyd ddiwedd Gorffennaf er mwyn osgoi ymyrryd â'r crehyrod glas a'r crehyrod bach sy'n nythu.

> "Gwelais fy nglas y dorlan cyntaf yma yng Nghymru. Roedd fel fflach o las bendigedig."
>
> **Lyndsey, Salisbury**

Allwedd:

- Dŵr
- Glaswelltir
- Coedlan
- Ponciau lleidiog
- Morfa heli
- Gorgors yr iseldir
- Canolfan ymwelwyr
- Toiledau
- Parcio
- Cuddfan
- Golygfan
- Rheilffordd

Yn y gwanwyn bydd bras y cyrs a thelor yr hesg yn canu ar hyd **llwybr y morfa heli.**

Distaw, os gwelwch yn dda! Mae **gwenoliaid** yn nythu yma yn y gwanwyn a'r haf.

Cuddfan Marian Mawr

Cuddfan Domen Las

Dyfi

Cuddfan y morfa heli

Er bod y **dyfrgi** yn swil iawn, mae glan yr afon yn lle gwych i'w weld wrth i'r afon droi tua'r gorllewin.

Wrth ddilyn y **llwybr pren** ar ddyddiau braf a heulog o haf chwiliwch am y gwas y neidr.

Yn y gaeaf mae'r caeau gwlyb ar hyd **llwybr y gwlyptir** yn llawn o hwyaid ac adar rhydiol.

Ar benllanw, arhoswch ennyd i wylio'r **adar rhydiol a'r hwyaid, y gwyddau a'r elyrch.**

Llwybr pren

Llwybr y rheilffordd

Cuddfan Ynys-hir

Cuddfan y morglawdd

Yn y gwanwyn, dilynwch **llwybr y goedlan** i chwilio am y gwybedog brith sy'n nythu.

Cuddfan Cwfert Du

Wyddoch chi?

Mae Ynys-hir yn cynnig pecynnau gwaith maes cyffrous ar gyfer grwpiau ysgol, yn sesiynau hanner diwrnod neu ddiwrnod llawn. Gall athrawon gysylltu â'r warchodfa am fwy o fanylion.

Wyddoch chi?

Mae'r glas y dorlan yn nythu'n agos at y warchodfa ac yn aml yn dod â'i gywion i ymarfer pysgota yn y pwll ger y maes parcio.